

6. CREFYDD A CHREDOAU'R CELTIAID

6.1 CREFYDD YR HEN GELTIAID (tarddiad hyd at y 5G OC)

Mae mater credoau crefyddol yr Hen Geltiaid yn faes astudio dadleuol sy'n ymwneud i raddau helaeth â phrofi a chadarnhau beth allwn ei wybod am greddau crefyddol y Celtiaid cyn goresgyniad y Rhufeiniad. Sonnir hefyd am barhad credoau hyn ar ôl sefydlu Cristnogaeth a'i gysylltiad â llên gwerin fodern.

Wrth sôn am 'crefydd' a 'duwiau' Celtaidd mae gofyn inni fod yn ofalus rhag deall y geiriau hyn â'r arwyddocâd modern yr ydym wedi arfer â hwy. Nid ydym yn syml yn astudio gwahaniaeth mewn meddylfryd ond yn hytrach newid sylfaenol mewn cydsyniad. Yn Ewrop, ers canrifoedd, mae crefydd yn cyfeirio gan amlaf at y patrymau safonedig ac, yn wir, patrymau gorfodol o addoli sy'n gysylltiedig â "chrefyddau'r llyfr" megis Cristnogaeth, Islam ac Iddewiaeth. Gan fod crefydd y Celtiaid heb amheuaeth yn fwy amhendant na 'chrefyddau' o'r fath, gan fod â thebygrwydd i'r hyn y cyfeirir amlaf ato fel 'ofergoel', byddai'n well inni ddefnyddio term niwtral a chyfeirio at 'greddau' yn hytrach na 'chrefydd' yr Hen Geltiaid (ac os ydym am barhau i ddefnyddio'r term 'crefydd' mae'n rhaid inni fod yn ymwybodol o'i ystyron). Yn y crefyddau adnabyddus hyn, mae'r term 'Duw' wedi'i briodoli i gyfeirio at un duw goruchel ac unigryw, creawdwr y byd. Yn sicr nid oedd duwiau'r Celtiaid mor oruchafol â hyn gan yr ymddengys fod gan bob un ohonynt briodoleddau arbennig ond cyfyngedig. Nid yw 'duwiau' adnabyddus eraill yr hen Roegiaid, Rhufeiniaid neu'r Llychlynwyr canoloesol cynnar ychwaith o gymorth mawr wrth daflu goleuni ar rôl duwiau ymysg y Celtiaid. Gosodwyd y 'duwiau' mewn 'pantheon' sydd nid yn unig yn awgrymu priodoledd arbennig i bob un ohonynt ond hefyd – ac mae hyn yn hollbwysig – system neu hierarchaeth o 'dduwiau' mewn perthynas â'r naill a'r llall, e.e. *Zeus, Jupiter, Odin* fel 'tad y duwiau'. Ymddengys fod pantheon trefnus y 'duwiau' yn yr hen fyd wedi bod yn ddatblygiad eilaidd o realiti mwy amhendant yn gynharach, ac mae'n debygol fod y pantheon Llychlynnaidd wedi'i batrymu'n fwriadol ar y pantheonau clasurol.

Mae'r rheiny sydd am gael byd-olwg crefyddol cydlynol ymysg yr Hen Geltiaid yn siŵr o gael eu siomi gan fod ein ffynonellau wedi'u cyfyngu i'r canlynol:

- sylwadau gwasgaredig gan awduron Groegaidd neu Rufeinig na allwn wirio eu hawdurdod ac y mae'n rhaid inni eu hamau o bedlera chlap a chleber teithwyr;
- arysgrifau byr ledled gorllewin yr Ymerodraeth Rufeinig sydd mewn nifer o achosion o bosibl yn amlygu syniadau a dylanwad Rhufeinig gymaint, os nad mwy, na rhai brodorol;
- claddedigaethau ac olion archeolegol, sy'n agored i amryw o ddehongliadau;
- tebygrwydd thematig ac ieithyddol diweddarach mewn llenyddiaeth ganoloesol yn enwedig llenyddiaeth Gymraeg a Gwyddeleg o'r Oesoedd Canol,
- astudiaethau cymharol o greddau crefyddol eraill.

Mae'r dystiolaeth mor llydan ac anodd ei dehongli nes ei bod wedi denu mwy na'i siâr o ysgolheigion amheus ac efrydwyr â chwilen yn eu pennau a hwythau wedi dod i gasgliadau anawdurdodedig na ellir eu profi. Dylid tynnu sylw at y ffaith fod yr Hen Geltiaid yn byw rhwng y 6G CC a'r 5G OC – h.y. am 11 canrif – ac roeddynt yn byw mewn ardaloedd mor bell oddi wrth ei gilydd ag o ogledd yr Alban i ganolbarth Twrci, de'r Almaen i ganolbarth Sbaen, gorllewin Ffrainc i Hwngari a gogledd Eidal, a daethant i gysylltiad â nifer o Hen Bobloedd megis y Groegiaid, Ilyriaid, Almaenwyr, Etrwsgiaid, Basgiaid, Iberiaid a'r cenhedloedd Lladinaidd i enwi'r rhai amlycaf. Byddai'n annirnadwy na fyddai eu hymwneud â phobloedd eraill dros gyfnodau mor hir o amser yn effeithio ar eu credoau. Yn wir byddai hynny yn wrthgyferbyniol i bopeth a wyddom am gymdeithas ddynol. Ymgais yw'r paragraffau canlynol i ddisgrifio'r hyn a wyddys am greddau'r Hen Geltiaid yn ôl yr ysgolheictod diwedddara mwyaf dibynnol.

Y gair Hen Gelteg *deiwos* 'duw' yn syml yw'r hen derm Indo-Ewropeg am dduw yr oedd ei ystyr gwreiddiol yn golygu 'awyr'. Mae ein hymgais i gysyniadu rôl pob duw Celtaidd y gwyddys amdano wedi'i awgrymu ond hefyd wedi'i lesteirio gan yr *interpretatio romana*, sef arfer y Rhufeiniaid o wneud duw Celtaidd yn gyfatebol ag un Rhufeinig mwy adnabyddus, megis Apollo, Mawrth, Mercurius, Minerva a'r ychwanegiad cyffredin o ansoddair neu air cyfatebol Celtaidd, e.e. *Mars Teutates*. Ym mob achos bron â bod nid ydym yn gwybod beth oedd y cysylltiad rhwng y duw Rhufeinig a'r un Celtaidd. Mewn arysgrifau o gyfnod y Rhufeiniaid weithiau ni roddir unrhyw enw cyfatebol. Ni fyddwn ar ein colled o astudio dystiolaeth anuniongyrchol yr enwau a roddid i'r duwiau Celtaidd, gan fod eu geirdarddiad yn awgrymu tarddiad animistaidd sef pan gâi ffenomen naturiol eu 'dwyfoli' neu eu 'personoli' yn fodau goruwchnaturiol. Gellir dosbarthu'r rhain i'r grwpiau canlynol:

- natur – *Dewa & Dewona* 'duwies' (enw sawl afon), *Borwo* '(duw) ffynhonnell dŵr', *Lugos* 'golau', *Taranos* 'taran' (cyfatebwyd ag Iau/Jupiter), *Ogmios* 'llwybr, orbit (sêr)', *Litawis* '(duwies) daear', *Sirona* '?seren (duwies)'.
- afonydd penodol – *Sequana* '(duwies) Seine'.

Câi creaduriaid a hyd yn oed swyddogaethau mewn cymdeithas eu 'dwyfoli' neu eu 'personoli' fel hyn, gan arwain at luosogrwydd o dduwiau:

- anifeiliaid – *Epona* 'ceffyl' (duwies), *Damona* 'buwch' (duwies), *Tarwos* 'tarw', *Artio* 'arth' (duwies).
- cymdeithas – *Matrona* 'mam (duwies)' (enw afon), *Maponos* 'mab (duw)' (yn cyfateb ag Apollo), *Teutates* 'pobl ...', *Nemetona* 'cysegr (duwies)'.

Dwyfolwyd y canlynol hefyd:

- grymoedd haniaethol – *Belinos* 'grym (duw)', *Belisama* 'y cryfaf (duwies)', *Brigantia* 'uchel (duwies)' (yn cyfateb â Caelestis), *Smertrios* 'rhagluniaeth'.

Mae rhai enwau duwiau megis *Albiorix* ‘brenin y byd’ yr un peth yn semantig ag enwau personol profedig megis *Dumnorix* a *Biturix* (y ddau yn ‘frenin y byd’). Megis â *Teutates*, mae’r enw *Toutiorix* ‘brenin y bobl’ yn ein hatgoffa fod rhai duwiau wedi’u priodoli yn amddiffynwyr lleol. Mae’n ddadlennol bod llawer o arysgrifau i *Brigantia* wedi’u canfod yn nhiriogaeth y Brigantes ym Mhrydain. Nid yw entymoleg llawer o enwau profedig eraill y duwiau *Nodens*, *Esos*, ac ati, yn glir, ond mae gennym ddigon o dystiolaeth i ddeall y sail resymegol y tu ôl i nifer helaeth y duwiau ymysg yr Hen Geltiaid gan ei fod yn debyg i’r hyn a ddigwyddodd yn ddiweddarach wrth i’r nifer o seintiau yn Ewrop yr Oesoedd Canol amlhau, pob un â phriodoledd arbennig ar gyfer salwch, anifail neu alwedigaeth benodol ac ati.

Os oedd credoau crefyddol y Celtiaid wedi tarddu o gasgliad o gredoau animistaidd, ni pharhasai i fod yn grefydd animistaidd syml erbyn yr adeg i feddylfryd y Celtiaid gyrraedd y gorwel hanesyddol. Erbyn y 3G CC (c.325-250CC) cadarnheir gwrthryfel crefyddol yn y cofnod archeolegol, megis seintwrau mawr wedi’u sefydlu yng Ngâl, gan efallai amlygu dylanwad – uniongyrchol neu beidio – byd Môr y Canoldir yr oedd y Celtiaid erbyn hynny yn ymgysguddo mwy ag ef. Mae’n anodd datgysylltu seintwrau La Tene o’r fath o addoliad gwladol neu gyhoeddus oedd â chast offeiriadol yn weinyddwyr ac mae’n debygol mai’r gweinyddwyr hyn oedd y dosbarth o ddynion y gwyddid amdanynt mewn ffynonellau clasurol fel y derwyddon. Mae’n amlwg o dystiolaeth archaeolegol fod yr Hen Geltiaid wedi defnyddio *tumuli* (beddrodau) neu lefydd cysegredig eraill yr hen bobl cynhanesyddol ar gyfer eu defnydd defosiynol eu hunain ac mae’n eglur fod ganddynt dirwedd sanctaidd o gysegrfeydd a llefydd sanctaidd lle ceir tystiolaeth bendant o anrhegion addunedol (h.y. anrhegion a gynigir i dduwiau ar allorau er mwyn cywiro adduned). Mae’r rhain fel arfer yn mynegi diolch i dduw am sicrhau na ddeuai pla, newyn neu ryfel (ar gyfer salwch câi ffigurynnau bychain a hyd yn oed freichiau neu goesau neu organau mewnol eu cerfio o bren).

Er gwaethaf lledaeniad temlau, ymddengys fod llwyni mewn coetiroedd wedi cadw arwyddocâd arbennig megis y gwnaeth ymysg pobloedd eraill gogledd Ewrop cyn Cristnogaeth megis pobl y Baltig, yr Almaenwyr, a’r Slafiaid. Mae’r gair *nemeton* ‘llwyn sanctaidd’ (‘templ’ yn ddiweddarach) yn hysbys ledled y rhan fwyaf o’r byd Celtaidd ac yn achos y Galatiaid, eu man ymgynnull gwleidyddol oedd lle o’r enw *Drunemeton* ‘llwyn derw’. Nid oes amheuaeth ynghylch pwysigrwydd coedwig Carnutes yng Ngâl, tra bod Pomponius Mela, y daearyddwr o’r ganrif gyntaf OC, wedi dweud bod derwyddon “mewn ogofâu neu llwyni cuddiedig, yn dysgu llawer o bethau i’r pendefigion yn ystod hyfforddiant sy’n para hyd at ugain mlynedd.” Mae’n debyg fod defnyddio llwyni mewn coedwigoedd fel mannau cysegredig yn arfer hynafol ond roedd hefyd yn ymarferol iawn gan ei fod yn helpu i warchod cyfrinachedd a dirgelwch arferion derwyddol.

Ymddengys fod y palisadau y gwyddys oedd yn amgylchynu rhai tmlau Celtaidd hefyd wedi bod â'r swyddogaeth o gadw eu gweithgareddau yn gyfrinachol rhag gweddill cymdeithas y Celtiaid. Nododd Cesar fod gan y derwyddon:

nifer fawr o benillion ar eu cof yn ôl y sôn. Ac maent yn parhau i gael eu hyfforddi am ryw ugain mlynedd. Nid ydynt ychwaith yn barnu y dylid ymddiried y pethau hyn ar bapur, er y defnyddir llythrennau Groegaidd ar gyfer y cyfan bron â bod o'u materion eraill, a'u trafodion cyhoeddus. Ymddengys i mi bod dau reswm pam y gwneir hyn: nid ydynt am i'r bobl gyffredin ymfalchïo yn eu hyfforddiant nac i'r rhai sy'n dysgu ddibynnu llai ar eu cof, oherwydd i raddau helaeth mae unigolion yn rhoi'r gorau i'w hymroddiad i'w cof a dysgu trylwyr drwy gymorth ysgrifennu.

Roedd gan gyfundrefn y derwyddon lawer o briodolddau cymdeithas gyfrinachol neu fasonaidd oedd â defodau derbyn llym (gwyddys am rai hefyd mewn llawer o ddiwylliannau nad ydynt yn rhai Ewropeaidd) a'r diwylliant hwn o gyfrinachedd yw un o'r rhesymau pam ei bod yn anodd pwysu a mesur credoau crefyddol y Celtiaid. Dywedodd Pomponius Mela fod y derwyddon "yn honni gwybod maint y ddaear a'r bydysawd, symudiadau'r nen a'r sêr, ac ewyllys y duwiau" a phwysleisiai awduron Clasurol yr Ymerodraeth ddiweddarach bod athroniaeth y derwyddon yn debyg i Pythagoras o Roeg (a adwaenid am ei bwyslais ar batrymau mathemategol a'i gred mewn ailymgawdoliad), ond nid oes modd gwirio gwirionedd yr honiadau hyn. Calendr efydd enwog Coligny yw un o'r dogfennau pwysicaf sy'n rhoi gwybodaeth inni am fedrau deallusol deallusion Celtaidd.

Roedd arferion y derwyddon o ddefodau aberthu yn rhan bwysig o grefydd y Celtiaid, a chât gwrthrychau eu gwneud yn ddiwerth drwy eu torri neu eu plygu cyn eu hoffrymu. Mae archaeoleg wedi cadarnhau bodolaeth aberth dynol er ei bod yn anodd mesur pa mor aml y byddid yn aberthu pobl (efallai dim ond pan deimlid bod angen dirfawr). Ymddengys yn amlwg fod llawer o'r rhai a aberthwyd yn garcharorion rhyfel, yn droseddwr neu hyd yn oed yn blant neu'n unigolion ag anffurfiadau (ac er bod yr olaf yn wrthun i'n lledneisrwydd modern sydd â manteision meddygaeth ddatblygedig, roedd yn gyffredin mewn nifer o ddiwylliannau eraill). Roedd y Rhufeiniaid yn ffieiddio at aberth dynol – er eu bod hwythau wedi'i wneud rai canrifoedd cyn hynny – a rhoesant ddiwedd arno. Rhodda Tacitus yn y ganrif gyntaf OC bortread erchyll o arferion derwyddol, gan sôn am "eu llwyni coed, manau o ofergoelion anwar. ... eu hallorau â gwaed carcharorion ar hyd-ddynt... yn cyfathrebu â'u duwiau drwy ymysgaroedd pobl."

Ymddengys fod derwyddon enwog yr Hen Geltiaid yn gast neu'n urdd offeiriadol, dehonglir eu henw i fod yn *dru* 'coeden, derwen' a **wid* 'gwybodaeth'. Yn ôl Cesar roeddynt yn gweithredu fel offeiriaid, gwyddonwyr, cyfreithwyr – sef y deallusion – yng nghymdeithas Gâl, gan ffurfio urdd ledled Gâl a oedd yn codi uwchlaw rhaniadau gwleidyddol. Gellid eu disgrifio fel dosbarth deallusol yr Hen Geltiaid. Ceir y sylwadau cyntaf amdanynt gan y Groegaidd tua 200CC, a chan yr awdur Posidonius tua 100CC y ceir un o'r disgrifiadau cynharaf o'u swyddogaeth mewn

cymdeithas. Ymddengys fod hynodrwydd y derwyddon yn ymwneud â'u cyfundrefn. Mewn darn dadleuol yn ymwneud â'r bobloedd Germanaidd, sef cymdogion gogledd-ddwyrain y Celtiaid, honna Cesar nad oedd gan yr Hen Almaenwyr (neu Ellmynwyr) dderwyddon, a chan mai prin y gellir gwadu bodolaeth credoau crefyddol a hyd yn oed unigolion a weithredai fel siamaniaid, gweledyddion, swynfeddygon, swynwyr, mae'n rhaid inni ddod i'r casgliad fod crefydd Geltaidd y derwyddon yn fwy trefnus nag un yr Almaenwyr. Byddai cynulliad 'cenedlaethol' derwyddon Gâl yn cyfarfod yn flynyddol yng nghoedwigoedd Carnutes (ardal Chartres erbyn heddiw) i ddatrys anghydfodau a dod i benderfyniadau. Ym Mhrydain, ymddengys fod Ynys Môn wedi bod yn ganolfan mudiad derwyddol (a oedd yn ôl y sôn yn fan geni derwyddiaeth – er yr amheuir hyn bellach gan lawer o ysgolheigion). Mae'n sicr bod posibilrwydd eu bod yn egin grym 'cenedlaethol' posibl yng Ngâl, a fyddai'n codi uwchlaw tiriogaethau gwladol a phobloedd benodol, i'w weld yn y ffordd y cawsant eu gormesu fel dosbarth offeiriadol yng Ngâl o dan Awgwstws (27CC-14OC) a'u gwahardd gan yr Ymerawdwr Claudius yn 54OC, heb anghofio, wrth gwrs, am ymosodiad y fyddin Rufeinig ar dderwyddon Môn yn 60OC. Caniatawyd, ar y llaw arall, i greddoau crefyddol Celtaidd ac addoli duwiau barhau yn ddigon tebyg i'r hyn ydoedd cyn y Rhufeiniaid, gyda'r rhan fwyaf o safleoedd addoli cyn y Rhufeiniaid wedi'u cadw i'r cyfnod Galaidd-Rufeinig. Cyflwynwyd crefydd Rufeinig yn fwriadol i Gâl a'r tiriogaethau a oresgynnwyd fel polisi swyddogol er mwyn hybu integreiddio'r bobloedd a drechwyd i ffyrdd y Rhufeiniaid o fyw. Gellir gweld hyn yn Lug(u)dunum (Lyon heddiw), sef prif dref gweinyddu Gâl Rufeinig, lle sefydlodd yr Ymerawdwr Drusus yn 12OC gysegr i Awgwstws ar gyffordd y ddwy afon. Rhoddwyd addoli'r ymerawdwr yng ngofal uchelwyr Gâl o dair rhan yng Ngâl, a daeth y cysegr hwn i'w adnabod fel Cysegr y Tair Gâl (*Sanctuary of the Three Gauls*: Aquitania, Celtica, Belgica); ysgythrwyd enwau mwy na thrigain o bobl Gâl ar yr amryw bolion o'i gwmpas yn sgil y ffaith y cynhelid cyngor y Tair Gâl yn flynyddol yno. Ni wyddys am dderwyddon unrhyw le arall yn yr Henfyd Celtaidd ond ymddengys eu bod yn nodweddiadol o Brydain, Gâl a hyd yn oed Galatia ond nid y Celtiberiaid yn Iberia.

Gwaharddwyd cyfundrefn y derwyddon, ond mae'n debygol fod peth o'u gwybodaeth wedi'i etifeddu gan unigolion oedd â thueddiadau siamanaidd. Yn y 4G gwawdiodd Ausonius o Bordeaux gyfoeswr iddo am fod yn ddisgynydd i linach dderwyddol (mae trosglwyddo teuluol yn ffynhonnell debygol i wybodaeth arbenigol). Goroesodd y term Hen Gelteg *druid* i'r ieithoedd Neo-Geltaidd ar ffurf y *dryw* a *derwydd* 'gweledydd, proffwyd' yn Gymraeg a'r *druí* (*draoi* yn ddiweddarach) 'siaman, dewin, dyn hysbys' yn yr Wyddeleg ac fe'u portreadir yn wir mewn llenyddiaeth Wyddeleg gynnaf fel gwrthwynebwyr paganaidd i seintiau Cristnogol cynnar megis Padrig (er bod Kim McCone wedi cyflwyno achos argyhoeddiadol bod storïau o'r fath a ailadroddwyd am ddyn sanctaidd Cristnogol yn curo ei wrthwynebwyr paganaidd wedi'u

hysbrydoli gan storïau apocryffaidd beiblaidd Simon Magus y byddai'r clerigwyr Gwyddelig yn gwybod amdanynt). Sut bynnag, yn ôl Koch, "The druids of early medieval Irish and Welsh literature are a marginal and largely fictional presence." Serch hynny dylid tynnu sylw at y ffaith yr ymddengys fod beirdd hyddysg Iwerddon a Chymru wedi rhannu rhai o briodolddau'r derwyddon cyn y concwest (Rhufeinig), sef bod yn ddosbarth deallusol â threfn arnynt (ac, yn wir, mae *filed* – y term Gwyddeleg mwyaf cyffredin am fardd – yn seiliedig ar fôn sy'n golygu 'gweld', gan ddangos sut y llithrodd y swyddogaeth 'gweledydd, proffwyd' i ran y bardd).

Ni ddaethpwyd o hyd i bortread darluniadol diamwys o dderwydd ac efallai fod hyn yn gysylltiedig â'r ffaith nad oedd y Celtiaid yn llunio delweddau carreg o'u duwiau (arfer na ddechreuodd tan yn ddiweddarach o dan ddylanwadau Groegaidd-Rufeinig Môr y Canoldir) er bod Lucan yn sôn am gerfluniau tebyg i swynion fwdw mewn llwyni ger Marseille. Deillia ein delwedd fodern ni heddiw o dderwydd â mantell hir wen, barf wen laes sy'n cynnal seremonïau mewn coedwig, o engrafiad yn *De Dis Germanis* (1648) gan yr Iseldirwr Elias Schedius. Yn ddiddorol, ceir engrafiad yn portreadu derwydd yn *Antiqua Illustrata, or, The Antiquities of Ancient Prydain* (1676) gan Aylett Sammes a datblygwyd yr engrafiad hwn gan Henry Rowlands yn ei *Mona Antiqua Restaurata* (1723) gan gyfnewid llyfr y derwydd â changen y dderwen (symbol rhamantaidd a fyddai'n mynegi hen ddoethineb mewnol natur).

Ffigwr 6: Darluniau o dderwydd gan Sammes (1676, chwith) a Rowlands (1723, dde)



Roedd y llun o'r derwydd a'r bardd yn un poblogaidd ymysg beirdd Saesneg y 18G megis Thomas Gray ('The Last Bard' 1757) a William Blake. Bu i'r cyfnod Rhamantaidd gyfuno eiconograffi

ystrydebau eraill hefyd (megis dyn gwyllt y coed, dynion gwyrdd, a meudwyon sanctaidd) â'r disgrifiadau clasurol a darganfyddiadau clasurol, nes cyn diwedd y 18G roedd y derwydd wedi dod yn stereoteip parod.

Mae goroesiad duwiau Celtaidd brodorol yng ngogledd-orllewin y gwledydd Celtaidd ar ôl sefydlu Cristnogaeth rhwng 450-650OC yn gwestiwn dyrys a dadleuol. Yn gyffredin â thueddiad a welir mewn llenyddiaeth ganoloesol Sgandinafia, dengys llawer o gyfeiriadau sydd wedi goroesi am dduwiau yn Iwerddon a Chymru bod duwiau wedi gweddnewid i fod yn feidrolion (proses a adwaenir fel ewhemeriaeth). Roedd meidrolion o'r fath yn berchen ar bwerau hudol ac fe gaent eu cofio yn aml fel arwyr, enghreifftiau yw *Lugh* (Hen Wyddeleg) a *Lleu* (Cymraeg Canol) yn cadw'r *Lugos* o Hen Gelteg, ac yn yr un modd *Nudd* (CC) yn cadw *Nodens*, *Brigit* (ffurf Hen Wyddeleg, Gw.Mn *Bríd*, Saesneg *Bride*) yn cynrychioli duwies *Brigantia* (credir bod y santes Gristnogol Brigit o Gildara (Kildare) wedi byw tua 600 a'i bod wedi etifeddu rhai o briodoleddau'r dduwies Brigantia). Ceir *Maponos* yr Hen Gelteg mewn Cymraeg Canol fel *Mabon* mab *Modron* (yn seiliedig ar y termau *mab* a **modr* 'mamr'). Mae rhai cyfeiriadau yn llenyddiaeth Geltaidd yr Oesoedd Canol yn cyfeirio at yr hyn a dybiwn sy'n dduwiau na wyddys amdanynt mewn Hen Gelteg, e.e. Cymraeg *Gofannon*, Hen Wyddeleg *Goibniu* 'gof (duw)'. Mae enwau lleoedd, yn enwedig afonydd, yn cynnwys cyfeiriadau at dduwiau, e.e. *Dyfrdwy* (Saesneg *Dee*), a'r afon *Boyne* yn Iwerddon (< Gw. *bó* + *fionn* 'buwch wen') a oedd efallai yn cyfeirio at anifail goruwchnaturiol.

Ond, tu hwnt i oroesiad enwau rhai duwiau, nid yw'n glir – neu o leiaf mae'n anodd profi – fod llenyddiaeth Geltaidd yr Oesoedd Canol wir yn cadw credoau paganaidd y gwyddid eu bod yn benodol i'r Hen Geltiaid. Mae'r agweddau hynny o grefydd yr Hen Geltiaid a barhaodd i lenyddiaeth Cymru ac Iwerddon yn y cyfnod canoloesol wedi rhannu'r ysgolheigion rhwng y 'cynhwynolwyr' (*nativists*, e.e. Proinsias Mac Cana) a'r 'Lladinwyr' (Kim McCone, Donnchadh Ó Corráin). Gan gyffredinol'n ystrydebol, ystyria'r cynhwynolwyr fod sagâu a thestunau cyfreithiol Gwyddeleg yr Oesoedd Canol yn cadw naratifau a chredoau llafar a phaganaidd brodorol Iwerddon ac yn dod cyn Cristnogaeth, tra bod y rhufeinyddion mwy amheugar yn credu bod dylanwadau llenyddiaeth Feiblaidd a Christnogol yn esbonio llawer o'r 'goroesiadau' paganaidd brodorol honedig. Dadleua'r 'Lladinwyr', wedi'u hysbrydoli gan y llinyn dadl a gyflwynwyd yn gyntaf gan James Carney yn *Studies in Early Irish Literature and History* (1955), fod "early Irish literature as a whole is rooted in a coherent, far-reaching and flexible construct or *senchus* [h.y. traddodiad] adapted, synthesized and modified by monastic men of letters from the Bible and other Latin writings in conjunction with vernacular traditions both oral, and increasingly, as time went on, written." (McCone, 1990). Serch hynny, mae McCone yn dal i bwysleisio pa mor anodd yw hi i ysgolheigion modern wahanu elfennau paganaidd a Christnogol

o'r cymysgedd o lenyddiaeth a gynhyrchwyd gan yr ysgolheigion mynachaid yn Iwerddon ar ddechrau'r Oesoedd Canol. Enghreifftiau o'r meysydd cynhennus rhwng 'cynhwynolwyr' a 'Lladinwyr' yw: (1) seremoni'r gaseg wen mewn defodau urddo brenhinol Tír Chonaill a nodwyd gan Gerallt Gymro yn y 1180au, a (2) ymadrodd yr Hen Wyddeleg "Tongu do dia toinges mo thúath" ('rwy'n taeru wrth y duw y mae fy llwyth i'n taeru wrtho!').

Nid oes rheswm i feddwl fod credoau'r Hen Geltiaid yn unffurf. Ni wyddom bron i ddim am eu mythau a dim ond ychydig a wyddom am eu defodau sy'n amhosibl i'w gwahaniaethu o hud a lledrith. Pa ddaliadau sylfaenol allwn ni eu canfod yn nisgrifiadau ffynonellau Clasurol? Nid ymddengys fod yno fythau creadigaeth (*cosmogony*) ac ni wyddys beth oedd eu cysyniad ynghylch diwedd y byd (*escatoleg*) os nad mai'r awyr yn syrthio ar y ddaear ydoedd. Ni wyddys am gysyniadau o fyd arall er y dywedir fod y derwyddon yn credu bod eneidiau marw yn ymgynnull yn 'orbe alio' (sydd yn ôl pob tebyg i'w gyfieithu fel rhan arall o'r byd yn hytrach na 'byd arall' (Maier 1997)). Roedd yr enaid yn fythol.

Llyfryddiaeth Ddethol

(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- BRUNAUX, Jean-Louis. (cyf.) 1988. *The Celtic Gauls: Gods, Rites and Sanctuaries*. (London: Seaby).
- CHADWICK, Nora K. 1966. *The Druids*. (Cardiff: University of Wales Press).
- DUVAL, Paul-Marie. 1957. *Les Dieux de la Gaule*. (Paris: Presses Universitaires de France).
- GREEN, Miranda J. 1992. *Dictionary of Celtic Myth and Legend*. (London: Thames & Hudson).
- GREEN, Miranda J. 1997a. *The Gods of the Celts*. (London: Sutton).
- *GREEN, Miranda J. 1997b. *Exploring the World of the Druids*. (London: Thames & Hudson).
- MAIER, Bernhard. (cyf.). 1997. *Dictionary of Celtic Religion and Culture*. (Woodbridge: Boydell). (arg. gwreiddiol 1994).
- *MAIER Bernhard. 2001. *Die Religion der Kelten: Götter, Mythen, Weltbild*. (München: C. H. Beck).
- MCCONE, Kim. 1990. *Pagan Past and Christian Present in Early Irish Literature*. (Maynooth: An Sagart). [adolygiad gan Patrick Sims-Williams yn 1996 *Éigse* 29.179–96]
- PIGGOTT, Stuart. 1968. *The Druids*. (London: Thames & Hudson).
- RAFTERY, Barry. 1994. *Pagan Celtic Ireland: the Enigma of the Irish Iron Age*. (London: Thames & Hudson).
- WEBSTER, Graham. 1987. *The British Celts and their Gods under Rome*. (London: Batsford).

6.2 YSBRYDOLRWYDD A CHRISTNOGAETH GELTAIDD (5G hyd at y presennol)

Roedd Cristnogaeth wedi cyrraedd Prydain a Gâl erbyn yr 2G, ond ni lwyddodd i ymledu yn eang y tu allan i drefi hyd y 4G ymlaen ar ôl iddi ddod yn grefydd swyddogol yr Ymerodraeth Rufeinig. Dengys ein ffynonellau – sy'n brin rhaid cyfaddef – fod Prydain y 5G, yn sgil ymadawiad y llengoedd, yn wlad Gristnogol ar y cyfan, er bod llawer o waith cenhadol yn cael ei

wneud ar y cyrion. Ond yn niwedd y 5G, yn dilyn sefydlu hynafiaid paganaidd y Saeson yn neddwyrain Prydain, cafodd Eglwys Gristnogol y Brythoniaid, y Pictiaid a'r Gwyddelod ei gwahanu o brif gorff y Cristnogion ar gyfandir Ewrop, a thrwy hynny fe gollwyd cyswllt rheolaidd. Nid oedd felly yn ymgyfarwyddo â datblygiadau athrawiaethol yr Eglwys Rufeinig gan ennill enw iddi'i hun erbyn y 7G am wyredigaethau. Yn y 7G cafwyd cystadlu rhwng y cenhadon Gwyddelig o Iona a cenhadon Rhufeinig o Gaergaint ynghylch cyfeiriad datblygiad Cristnogaeth yn Lloegr. Yn 664 yn Synod Whitby, gorchfygwyd y garfan Wyddelig a dychwelodd llawer o'r cenhadon Gwyddelig i'w gwledydd genedigol. O hynny ymlaen tan y 9G ildiodd gwahanol ardaloedd Celtaidd i arferion Rhufeinig ynghylch dyddio'r Pasg ac eillio pen dynion crefyddol. Ar ôl hynny bychan oedd y gwahaniaethau athrawiaethol rhwng Cristnogaeth yn y tiroedd Celtaidd a gweddill gorllewin Ewrop, er y cyhuddwyd y Celtiaid yn aml o fod yn esgeulus wrth gadw eu dyletswyddau Cristnogol ac yn eu ffordd o fyw (gan y byddai offeiriaid yn priodi, ac abadaethau yn cael eu hetifeddu gan deuluoedd eglwysig pwerus). Dim ond ar ôl y Diwygiad Protestannaidd yn y 16G y cafodd y gwahaniaethau rhwng Cristnogaeth gynnar Ynysoedd Prydain a'r un 'Rhufeinig' (h.y. Cristnogaeth Gatholig) eu harfer yn athrawiaethol a'u diriaethu yn Gristnogaeth Brotestannaidd gynnar; yn ddiweddarach cafodd ei 'diraddio' yn rymus i fod yn Gatholigiaeth ganoloesol babaid. Roedd y dehongliad hwn o hanes yn boblogaidd ymysg llinynnau amrywiol Protestaniaid ac roedd wedi ennill y teitl 'Eglwys Geltaidd' erbyn y 19G. Ers canol y 19G diriaethwyd 'Cristnogaeth Geltaidd' ymhellach ar drywydd ystrydebau ethnig am y Celtiaid fel pobl gyfriniol wedi'u condemnio i ddiflannu o'r byd modern drwy eu dirmyg o bethau bydol.

Mae neo-dderwyddiaeth yn fath o ysbrydolrwydd y gellir ei gyfrif yn Geltaidd wrth iddo ymddangos yn y 18G, yn deillio o'r mudiad Rhamantaidd ac wedi'i ysbrydoli gan ymchwiliadau hynafiaethwyr Prydeinig megis John Aubrey, William Stukeley a Henry Rowland. Dywedir bod yr obsesiwn hwn â derwyddon ymysg hynafiaethwyr y cyfnod wedi ysbrydoli rhyw John Toland i sefydlu urdd dderwyddol ar Fryn Briallu/ Primrose Hill, Llundain yn 1717. Er hynny, y gymdeithas neo-dderwyddol gyntaf y gellir ei phrofi'n gadarn, ac wedi'i threfnu i raddau helaeth fel mudiad masonaidd, oedd *Ancient Order of Druids* a sefydlwyd gan Henry Hurle yn 1781, ac wedi'i lleoli yn Llundain. Yn 1792, roedd y Cymro Edward Williams (a adwaenir yn well yn ôl ei ffugenw Iolo Morganwg), yn byw yn Llundain bryd hynny, ac aeth ati i sefydlu Derwyddon Gorsedd Beirdd Ynys Prydain ar Fryn Briallu. Iolo Morganwg oedd un o'r ysgolheigion mwyaf blaenllaw ar hen lenyddiaeth Gymraeg yn ei ddydd ac roedd ganddo ddychymyg byw, a gâi hwb gan ei duedd i droi at heroin, a rhoddodd hyn fod ar ei fedr penigamp i greu ffugiadau a dwyllodd ysgolheigion Cymru am dros ganrif. Ymfalchïai Iolo Morganwg ar fod yn 'fardd' ac yn sgil ei ymdeimlad cryf o wladgarwch lleol gorliwiodd draddodiad barddonol ei Sir Forgannwg enedigol a'i orliwio drwy estyn ei thraddodiadau yn ôl at dderwyddon yr Hen Gelteg. Perswadiodd ei

gyfoeswyr fod yr Orsedd yn cadw ac yn adfer hen draddodiadau'r Cymry drwy lwyddo i'w chysylltu hi a'i seremonïau ag eisteddfod a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin yn 1819. Ar ôl hynny tyfodd yr eisteddfod yng Nghymru'r 19G law yn llaw â llwyddiant yr orsedd o feirdd-derwyddon (sef cymdeithas lenyddol mewn gwirionedd). Hyd yn oed ar ôl i lawer o honiadau Iolo gael eu gwrthbrofi tua 1900, roedd yr Orsedd a'r derwyddon wedi ymsefydlu fel rhan anhepgor o ddiwylliant Cymraeg. Gan efelychu'r Orsedd Gymreig, sefydlwyd gorsedd Lydewig – *Gorsedd* neu *Collège des Bardes* – gan y cenedlaetholwr Llydewig François Jaffrennou (ffugenw Taldir) fel chwaer fudiad. Yn 1928 sefydlwyd Gorseth Cernyw, er bod ynddi amod sy'n plygu i ymwybyddiaeth Gristnogol y byddai ei holl aelodau yn feirdd a'r un ohonynt yn dderwyddon. Mae Gorseth Llydaw wedi mynd i helyntion o dro i dro wrth gael ei thynnu rhwng cangen baganaidd ac un llenyddol-ddiwylliannol ac yn y 1960au bu raid i Archdderwydd Cymru, Cynan, gynorthwyo i adfer trefn. Mae urddau derwyddol sydd â natur mwy masonaidd neu baganaidd wedi ffynnu yn Lloegr, Ffrainc a'r UDA ond nid yw Iwerddon na'r Alban wedi cymryd fawr o ran yn adfywiad unrhyw ffurf o dderwyddiaeth fodern (efallai yn wir fod y ffaith fod gan yr Albanwyr eu gwisg seremonïol ryfedd eu hunain wedi bod yn ffactor a gyfrannai at eu hamharodrwydd i fabwysiadu derwyddiaeth).

Yn gyfochrog i raddau â'r ffenomen esoterig o grefydd baganaidd Geltaidd adferedig, ceir ffyniant grwpiau bychain o ddynion ers diwedd y 19G sy'n ceisio adfer yr 'Eglwys Geltaidd'. Mae llawer o'r rhain wedi gwyro at Uniongrededd – os nad ymuno ag ef – fel y ffurf ar Gristnogaeth oedd yn fwyaf tebygol o fod yn debyg i'r Eglwys Gristnogol fel yr oedd yn oes y seintiau.

Yn aml nid oes gan goleddu ysbrydolrwydd Celtaidd 'oes newydd' esoterig a chryf o'r fath – boed yn baganaidd neu'n Gristnogol – ond mymryn o ddiddordeb yn yr hyn y gellir neu na ellir mewn gwirionedd ei ystyried yn Geltaidd. Beirniadodd Donald Meek (2000) y duedd hon:

Without the ... Celtic languages ... the appropriation of the 'Celtic' material is greatly facilitated, and an alternative 'Celtic' culture is created largely for the consumption of 'outsiders' and nonspeakers of Celtic languages who continue to colonise the 'Celtic Fringe', either physically or spiritually.

I gael casgliad cryno defnyddiol o wybodaeth anysgolheigaidd ar ysbrydolrwydd esoterig Celtaidd, nid oes well na'r llyfryn priodol ei deitl *Complete Idiot's Guide to Celtic Wisdom* a ysgrifennwyd gan yr Americanwr Carl McColman.

Fel y gellir gweld o hanes pob un o'r gwledydd Celtaidd ers y 16G, rhoddodd y Diwygiad Protestannaidd fod i anghydfod hir a chwerw rhwng carfanau a chymdeithasau sydd yn dal i'w gael yng Ngogledd Iwerddon hyd heddiw. Ers yr adeg honno mae'n amlwg yn amhosibl dadlau o blaid neu ddiffinio casgliad unffurf o nodweddion sy'n nodi 'Cristnogaeth Geltaidd' dybiedig,

eithr yn hytrach y gwahaniaethau sy'n heidio ar y sylwedydd. Arhosodd Llydaw ac Iwerddon (y poblogaethau brodorol o leiaf) yn Gatholigion pybyr tra bod Cymru, Cernyw, Manaw ac Ucheldir yr Alban (gyda rhai eithriadau yn y wlad ddiwethaf) wedi troi at Brotestaniaeth efengylaidd. Yng Nghymru ac yn Ucheldir yr Alban, bu i'r enwadau Protestannaidd hefyd gweryla â'i gilydd, gan arwain at anhawster mawr wrth gyffredinoli yn fanwl am yr hyn sy'n nodweddiadol o Gristnogaeth Cymru neu'r Uchelddiroedd. Yr unig nodwedd y gellir ei chymharu sy'n debyg yn yr holl ardaloedd Celtaidd eu hiaith ers diwedd y 19G yw datblygiad gogwydd crefyddol – boed yn Gatholig neu'n Brotestannaidd – oedd yn mynd yn erbyn blaenoriaeth wladwriaethol llywodraethau Lloegr a Ffrainc (hynny yw gogwydd crefyddol a allai ategu eu hynodrwydd 'cenedlaethol'). O ddiddordeb penodol yw'r cenadaethau rhannol lwyddiannus gan y Cymry Anghydfurfiol a sefydlwyd gan y Bedyddwyr a'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llydaw ar ôl 1836 i achub eu cyd-wladwyr yn Ffrainc rhag amryfusedd eu crefydd. Roedd cenhadon Anghydfurfiol o Gymru yn weithgar iawn yn y 19G ym Madagascar ac ym mryniau Khassia yn Assam yn India. Yn yr ail achos bu iddynt drosi'r bobl Khasi, a ddominyddid ac a gaseid, i Fethodistiaeth Galfinaidd (Presbyteriaeth), gan fynd ati hefyd, drwy ddefnyddio arferion y Saesneg a'r Gymraeg, i gyfundrefnu tafodiaith Cherrapunji i roi orgraff lenyddol yr iaith Khasi Safonol.

Llyfryddiaeth Ddethol
(* gweithiau arweiniol a argymhellir)

- HALE Amy. 2002. 'Whose Celtic Cornwall? The ethnic Cornish meet Celtic spirituality'. yn David C. Harvey & Rhys Jones & Neil McInroy & Christine Milligan (goln). *Celtic Geographies: Old Culture, New Times*. (London: Routledge), 157–70.
- MCCOLMAN, Carl. 2003. *The Complete Idiot's Guide to Celtic Wisdom*. (Indianapolis IN: Alpha).
- *MEEK, Donald E. 2000. *The Quest for Celtic Christianity*. (Edinburgh: Hanseld).